# Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ynys Môn 2026

Cystadleuaeth Rhif 315 – Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.10 a dan 19 oed

Beirniad: Guto Pryderi Puw

**BEIRNIADAETH GUTO PRYDERI PUW**

Oherwydd oedran y gystadleuaeth hon, mae'n cynnig ei hun yn naturiol i gyflwyno darnau a gyfansoddwyd yn barod ar gyfer unai y portffolio cyfansoddi TGAU neu Lefel Uwch, sydd wrth gwrs i'w annog. Yn ogystal, braf oedd gweld ambell i ddarnau a oedd yn arddangos gwreiddioldeb a medrusrwydd a oedd yn ymetsyn tu hwnt i gyfyngiadau portffolio o'r fath.

Derbyniwyd dwy ymgais ar bymtheg ac roedd y safon ar y cyfan yn dda iawn. I'r sawl sydd yn dymuno cyflwyno yn y dyfodol, gwnewch yn siwr eich bod yn darllen y cyfarwyddiadau cyflwyno yn ofalus a chofiwch ddefnyddio ffugenwau pwrpasol. Ni chyflwynodd un ymgeisydd y dogfennau perthnasol o gwbl ac fe adawodd tri pherson eu henwau unai ar gopi pdf o'r sgôr neu o fewn enw y ffeil mp3.

Isod rhoddir sylwadau ar bob un ymgais yn eu tro, gydag awgrymiadau ehangach i'r ymgeiswyr yn y dosbarth uchaf.

*Trydydd Dosbarth*
Roedd y darn *Gafr y Mynydd* gan Afan ar gyfer trwmped a phiano ar y ffurf thema ac amrywiadau. Roedd yr harmonïau yn 'saff' a'r ysgrifennu offerynnol yn idiomatig, yn nhraddodiad offerynnau pres nodweddiadol. O bosibl y gellid ychwanegu rhagor o fanylion i'r sgôr, megis ynganiadau, llithriadau (slurs) yngyd â chyflwyno adran yng nghywair y lleiaf perthynol, i gynnig rhagor o amrywiaeth harmonig i'r amrywiadau.

Roedd *Baled Brenin yr Arfordir* gan Arfordir ar gyfer ffliwt, obo, basŵn a phiano yn ddarn disgrifiadol a phwerus yn archwilio rhai cordiau estynedig a oedd yn addas i fynegi tymhestl posibl a geir yn aml ar lan y môr. Roedd llawer o ddrama yn y gerddoriaeth, gydag ymdrech deg i gael yr offerynnau i ryngweithio'n grefftus gyda'i gilydd. Er y cafwyd diweddglo cadarn a phwrpasol, mae lle i ddatblygu fwy ar y syniadau cerddorol drwy gwrs y darn.

Darn ar gyfer trio piano yw *Deffro'r Gwanwyn* gan Blodyn Tatws gyda deialog effeithiol wedi ei chreu rhwng y feiolin a'r sielo. Mae lle i roi mwy o bwysigrwydd i ran y piano, yn lle ei glustnodi i gyfeilio drwy'r amser. Yn ogystal, gellid archwilio cyweiriau gwahanol, er mwyn cynyddu'r diddordeb tonyddol.

Cafodd *Glanwyd y Ffrancwyr!* gan Claud ei gyfansoddi ar gyfer cornet, timpanau, clychau, piano, telyn, feiolinau a sielo. Roedd y gerddoriaeth yn ffanfferol gyffrous ar brydiau, o bosibl yn awgrymu glaniad aflwyddianus milwyr Ffrengig yn sir Benfro ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Gellid fod wedi amrywio rhan y piano, gan ei fod yn cynnwys llawer o ddwblu yr un cordiau yn y ddwy law. Yn ogystal, a ddylid defnyddio 'Glaniad' yn hytrach na 'Glanwyd' yn y teitl?

Lluniwyd *Rhydd* gan Dan Wrong ar ffurf walts jasaidd ar gyfer piano a chlarinét. Cafwyd ambell i adran o led-fyrfyfyrio crefftus yn rhan y clarinét a oedd yn idiomatig i'r cyfrwng. Mae modd cynnwys adran debyg yn rhan y piano hefyd, er mwyn creu mwy o falans offerynnol i'r darn.

Darparodd HTA recordiad mp3 o'r gân *Rhydd*, yn ôl y teitl roddwyd ar y ffeil. Cafwyd trac egnïol a oedd yn brwydro ymlaen yn arwrol. Er hynny, ychydig yn ddarniog yw'r gwahanol rannau, cofier bod modd i'r offerynnau chwarae drwy gydol adran gyfan. Hefyd, beth am lenwi fwy ar ran y drymiau a dylid balansio'r offerynau o fewn y cymysgiad, roedd yr hi-hat braidd yn uchel yn y cymysgu terfynnol. Roedd yr wythfedi yn y bas tua'r diwedd yn drawiadol (ond dylid fod wedi llenwi gweddill yr offerynnau i gynnal y dwyster hwn), ac roedd cymal y piano yma yn effeithiol, ond eto mae modd cael mwy o 'gord pŵer' yn y band i ddiweddu'r darn.

Cyfansoddwyd 'Mountains composition' ar gyfer feiola, sielo a phiano. Roedd y darn yn meddu ar arddull finimalaidd nid anhebyg i Einaudi, gan ddibynnu ar lawer o ailadrodd patrymau syml. Llwyddodd y darn i adeiladu y gweadau offerynnol yn effeithiol, ond nid oedd y gerddoriaeth fel petai yn symud i'r unlle. O bosibl y gellid dod dros y brolem hon drwy greu adran wrthgyferbyniol ganolog sydd yn ddatblygiad o'r deunydd sydd wedi bod yn barod.

Roedd *Gwanwyn a Hydref* gan Tymhorau ar gyfer ffliwt, basŵn a thelyn mewn dwy adran yn cyfleu y ddau dymor gwahanol. Yn adran agoriadol y Gwanwyn, roedd y brif alaw mewn 6/8 yn egnïol rhythmig ac yn lled werinol ei naws, gyda chyfeiliant y delyn yn aml yn ei dyblu. Mae lle i gael mwy o annibynniaeth rhwng yr alaw yn y ffliwt a'r cyfeiliant, gan glustnodi rhan fwy cordiol i'r delyn gan ddwblu yr alaw yn achlysurol. Gellid hefyd fod wedi datblygu mwy ar y gwrthdaro rhwng y 6/8 a'r 3/4 yn ystod yr adran hon. Cafwyd gwrthgyferbyniad effeithiol gyda chywair lleiaf adran yr Hydref. Beth am gryfhau y gwrthgyferbyniad drwy roi'r brif alaw i'r basŵn tra bo'r ffliwt yn chwarae ambell i ffigwr cyfeiliol achysurol, cyn ymuno i chwarae'r brif alaw i orffen y darn? O ran y nodiant, dylid osgoi gosod un bar ar hyd system gyfan.

*Ail Ddosbarth*

Roedd *Ysbryd-oliaeth* gan Arianrhod yn ddarn arbrofol ar gyfer tiwba, telyn, tair organ synthyseinydd, gitar fas, koto a llinynnau. Mae'r darn hwn yn arddangos cryn ddychymyg yn ei arddull a'i offeryniaeth, gan greu tracsain amgen a lled-seicadelig diddorol iawn. O bosibl nad yw'r potensial cerddorol wedi ei lawn wireddu y tro hwn, ond yn sicr mae addewid yma. Dylid treulio peth amser yn twtio'r sgôr gan fod llawer o nodiant enharmonig yn ymddangos.

Defnyddia *Mini Rondo* gan Dylan ffurf cyfarwydd yn effeithiol iawn gan greu darn pleserus ac uniongyrchol. Gellid fod wedi cynnwys rhagor o fanylion ar y sgôr, megis ynganiadau a llithriadau (slurs) a marciau bwa. Serch hynny cafwyd ymdrech dda i amrywio'r offeryniaeth gan roddi'r alaw yn y sielo i gyfeiliant pizz. at y diwedd. Mae lle yma i ymestyn yr harmoni, gan ei fod yn saff drwy gydol y darn, ynghyd â chreu mwy o wrthgyferbyniad rhwng yr adrannu gwahanol bob tro.

Roedd y *Capriccioso* gan Mamog ar gyfer ffliwt a phiano wedi ei saernïo yn gelfydd iawn ac wedi ei seilio ar ddarn byrlymus nodweddiadol o ddiwedd y cyfnod Casurol a dechrau'r cyfnod Rhamantaidd. Roedd y canon rhwng y ffliwt a llaw dde y piano yn gweithio'n dda ac roedd yr harmoneiddio rhwng y ddau offeryn yn effeithiol. Roedd y diweddglo'n ddramatig, ond yn gwbl addas o fewn yr arddull. Credaf y dylid cael mwy o adeiladu tensiwn yn arwain tuag at y diweddglo hwn, i gael gorffeniad fwy argyhoeddiedig. Beth am wrando ar ddarnau tebyg er mwyn modelu, er enghraifft y *Rondo Capriccioso, Op. 14* gan Mendelssohn, a all fod o gymorth wrth efelychu ac i amrywio'r deunydd ychydig fwy.

Roedd *Pedwarawd Llinynnol yn F Fwyaf* gan Menai yn engraifft arall o ddarn *pastiche* ond y tro hwn ar ffurf cyfansoddiad o'r cyfnod Clasurol. Mae dealltwriaeth dda o ysgrifennu offerynnol yma,

gyda'r rhannau yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Cafwyd amrywiaeth yn yr ysgrifennu offerynnol wrth glustnodi'r brif alaw i'r feiola ac wedyn y sielo a thrwy symud i gywair gwahanol yn nes ymlaen yn y darn. Cafwyd defnydd trawiadol o ddilyniant cordiol yn nechrau'r adran ganol, ond yn gyffredinol mae lle i ymestyn yr harmonïau a'r deunydd cerddorol ymhellach.

Bu ymgais *Rhyddid* yn gân fetal drom gyda mynegiant hynod o gryf ac uniongyrchol i'r gerddoriaeth. Roedd y strwythur yn gweithio'n dda a chafwyd riffs cofiadwy ynghyd ac unawd gitâr flaen anhygoel tua'r diwedd. O ran y cynnyrch gorffenedig, gellir tynhau ambell adran o ran y cydsymud offerynnol ac mae peth gwaith i'w wneud eto ar y cymysgu, gan fod lefel y llais yn isel iawn a dylid gadael i'r sain ddistewi yn naturiol i ddim ar ddiwedd y trac, yn lle ei glipio ffwrdd yn ddisymwth. Hefyd, beth am ychwanegu lleisiau cefndir i harmoneiddio'r alaw yn y gytgan? Fel arall, roedd y diweddglo yn dda ac yn sicr mae addewid yma.

Roedd *Siocled Poeth i'r glust* gan Teltyn Fach yn ddarn hynod o ddifyr ar gyfer trwmped, feibraffôn, sielo  a phiano. Yn ogystal, ar y sgôr fe labelir pob offeryn gydag elfen gysylltiedig â siocled, megis 'botymau siocled' yn rhan y trwmped, 'Taenellu Enfys' yn rhan y feibraffôn, 'Llaeth Cymraeg Poeth' yn rhan y piano a 'Phowdr Coco' i ran y sielo! Mae'r gerddoriaeth ar ffurf walts gydag awgrymiadau o jas yma ac acw yn ychwanegu at naws gellweirus y darn. Drwy rhan fwyaf o'r cyfansoddiad cafwyd defnydd effeithiol iawn o'r trwmped a'r feibs, heblaw am adran gymharol wag tua'r canol, felly o bosibl y dylai un o offerynnau'r ensemble hawlio'r sylw (e.e. yr alaw). Roedd y diweddglo yn drawiadol wrth i'r feibs ailadrodd patrwm rhythmig ar yr un traw, gydag awgrym o'r brif alaw wedi ei harafu yn y sielo, yn ein gadael eisiau mwy o'r gerddoriaeth (...neu'r 'powdr coco' wrth gwrs!). Yn sicr mae mwy o sgôp i ddatblygu ac amrywio y deunydd cerddorol, fel arall mae cnewyllyn cyfansoddiad o safon uchel yma.

Roedd *Waltz* gan Telyn Enfys yn ddarn heriol ar gyfer feiolin a thelyn wedi ei ysgrifennu'n idiomatig ar gyfer y ddau offeryn, gyda'r cystadleuydd o bosibl yn gyfarwydd gyda chwarae'r delyn. Roedd y brif alaw yn afaelgar. O bosibl y gellid fod wedi ysgafhau y cyfeilant mewn ambell i adran, fel nad yw'n mynd yn rhy undonnog. Yng nghanol y darn fe newidwyd yr arddul i rhythm calypso a oedd yn ffurfio gwrthgyferbyniad llwyr i'r gerddoriaeth flaenorol, ond nid wyf yn siwr os oedd yn gweithio yng nghyd-destun y cyfanwaith. Yn y cyswllt hwn, dylid gofyn beth yw perthynas y calypso gyda'r walts a beth yw'r cyfiawnhad/rheswm i'w ddefnyddio o fewn y gwaith? Pan yn dychweyd i'r deunydd agoriadol, mi ddylai'r adran olaf fod yn hirach, er mwyn creu gwell balans rhwng yr adrannau allannol.

*Dosbarth Cyntaf*
By ymgais *Nosweithiau Hir* gan IW ar ffurf baled offerynnol a oedd yn creu cryn foddhad wrth wrando arni. Roedd y dilyniant cordiol yn afaelgar a chredaf fod llawer o amser wedi ei fuddsoddi yn recordio'r gwahanol offerynnau. Roedd yr adran wyth ganol (middle-8) yn hynod ddramatig ac yn torri ar unffurf y pennillion a'r cytgannau. Y brif (a'r unig) feirniadaeth oedd y diffyg alaw benodol, unai ar offeryn unawdol neu, gwell fyth, i lais a geiriau bachog.

Roedd *Fforchlas* gan Teg yn gyfansoddiad i bedwarawd llinynnol gan arddangos cryn fedrusrwydd yn yr ysgrifennu offerynnol, gyda llawer o farciau ynganu, megis acenion a staccato, yn atgyfnerthu'r mynegiant. Roedd y brif alaw yn creu naws emosiynol soffistigedig ac yn ein tywys ar daith gerddorol ddifyr. Mae lle i edrych eto ar adeiladwaith yr alaw agoriadol hon, o bosibl y gellid ailadrodd barrau 1-4 ym marrau 5-8 gan newid diwedd y cymal olaf i greu diweddeb addas. Yn ogystal, gocheled rhag cuddio'r brif alaw yn y cyfeiliant, fel a welir tua dechrau'r darn. Roedd y cyfansoddiad wedi ei rannu i adrannau penodol, gyda'r brif alaw yn ailymddangos yn achlysurol

sy'n awgrymu ffurf Rondo. Roedd y trawgyweirio i gyweiriau eraill, e.e. C# fwyaf at y diwedd, yn gwbl llyfn a naturiol. Mae modd nodi'r adran hon yn y cywerinod cywir o C# fwyaf (neu gwell fyth yn Db fwyaf?), i gael gwared or holl hapnodau yn y nodiant. Cofier ddefnyddio E# yn hytrach na F naturiol yn y cordiau! Er hynny, cafwyd gwaith hynod drawiadol a oedd yn llwyddiannus i hoelio'r sylw o'r dechrau i'r diwedd.

O ran y gystadleuaeth hon ac o'r hyn a welir yn fy sylwadau uchod, teg nodi ar yr un llaw fod pob un o'r cyfansoddiadau yn meddu ar wahanol rinweddau sy'n rhagori, ac ar y llaw arall bod amrwyiol fân feiau yn bresennol ymhob un ohonnynt. Gadewch i ni ymhyfrydu a dathlu y rhagoriaethau hyn ac anogaf yr holl ymgeiswyr i ddyfalbarhau yn eu siwrne creadigol, ym mha bynnag arddull. Pleser gennyf gyhoeddi y dyfernir y wobr gyntaf i Teg, yr ail wobr i IW a'r drydedd wobr i Teltyn Fach. Llongyfarchiadau gwresog iddynt i gyd!